Prifysgol Bangor

# COFNODION Y CYNGOR

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y brifysgol ddydd Gwener, 25 Medi 2020.

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Yr Athro Nicky Callow, Dr Tomos Dafydd, Yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Andrew Edwards, Mr Iwan Evans, Dr Griff Jones, Dr Karen Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Ms Ellen Parry Williams, Miss Julie Perkins, Dr Ian Rees, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro Paul Spencer, Yr Athro Oliver Turnbull, Mr Henry Williams, Mr Tudur Williams, Prif Swyddog Gweithredu/Ysgrifennydd y Brifysgol, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

## 20.1 CROESO

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i gyfarfod cyntaf blwyddyn academaidd 2020/21 a nododd ei fod yn parhau i fod yn sefyllfa heriol i'r brifysgol, gyda niferoedd yr achosion Covid-19 yn ymddangos fel pe baent ar gynnydd eto.

## 20.2 MARWOLAETHAU

Cyfeiriodd y cadeirydd at farwolaethau'r canlynol yn ddiweddar:

**Y Parchedig Dr Elfed ap Nefydd Roberts,**
Cymrawd er Anrhydedd y brifysgol

**Mrs Margaret Brown,**
Cyn Uwch Ddarlithydd Economeg

**John Meirion Morris,**
Cymrawd er Anrhydedd y brifysgol

**John Walter Jones**
Cymrawd er Anrhydedd y brifysgol

Bu'r aelodau yn dawel er cof amdanynt.

## 20.3 LLONGYFARCHIADAU

A. Ar dderbyn Cadair Bersonol:

**Dr Rasha Alsakka,** Ysgol Busnes Bangor
**Mrs Delyth Prys**, Canolfan Bedwyr
**Dr Sue Niebrzydowski,** Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth

**Dr Alison Mawhinney**, Ysgol y Gyfraith
**Dr Richard Holland**, Ysgol Gwyddorau Naturiol

B. Ar dderbyn swydd Darllenydd:

**Dr Graham Ormondroyd,** Y Ganolfan Biogyfansoddion
**Dr Maziar Nezhad**, Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig
**Dr Zengbo (James) Wang**, Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig
**Dr Eben Muse**, Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth
**Dr Guto Puw**, Ysgol Cerddoriaeth, Drama a Pherfformio
**Dr Olga Golyshina**, Ysgol Gwyddorau Naturiol
**Dr Martin Skov**, Ysgol Gwyddorau'r Eigion

C. Nododd y cadeirydd y llwyddiannau canlynol hefyd:

**Cafodd Tom Williams, myfyriwr Bioleg y Môr ac Eigioneg** ei ganmol am ei ddewrder aruthrol yn rhuthro i'r môr i achub dyn. Cadarnhaodd Heddlu Dyfed Powys nad oedd unrhyw amheuaeth bod Tom a'i ffrindiau wedi achub bywyd y dyn.

Bod yr estyniad i'r **Bartneriaeth SEACAMS2** rhwng Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe yn cael hwb pellach ar ôl ennill £1.5M ychwanegol o gyllid yr UE gan Lywodraeth Cymru a fydd yn galluogi ymchwil i barhau tan 2022. Bydd y gwaith yn cyfrannu at y sector carbon isel, ynni a'r amgylchedd.

**Gallai cregyn crancod ddarparu firwsladdwr newydd ar gyfer cyfarpar diogelu personol** Mae cwmni Pennotec (Pennog Cyf) o ogledd Cymru yn gweithio gydag arbenigwyr ym Mhrifysgol Bangor i ddatblygu haen unigryw sydd â nodweddion hirhoedlog sy'n gallu dinistrio firysau. Caiff deunydd sy'n deillio o gregyn crancod gwastraff ei brofi i weld a oes modd ei ddefnyddio fel firwsladdwr ar gyfarpar diogelu personol a dyfeisiau meddygol eraill.

**Roedd yr Athro Julia Jones** , Athro Gwyddor Cadwraeth yn Ysgol y Gwyddorau Naturiol ymhlith rhai o wyddonwyr mwyaf blaenllaw'r byd yn rhaglen y BBC, "Extinction: The Facts" a gyflwynwyd gan Syr David Attenborough.

**Mae Laura Sanderson**, myfyrwraig yn y brifysgol a nofiwr gwyllt yn ymweld â phob un o'r 15 parc cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig fel rhan o daith wyddonol i gasglu cannoedd o samplau dŵr, a gânt eu dadansoddi ym Mhrifysgol Bangor i chwilio am bresenoldeb microplastigion.

Mae tri o raddedigion cwrs MA Gwneud Ffilmiau Prifysgol Bangor yn dathlu'r mis hwn gan fod cynyrchiadau maent wedi gweithio arnynt wedi cyrraedd y rhestr fer am Wobr BAFTA Cymru. **Cyfrannodd Lee Carson** fel aelod o'r criw at addasiad mawr y BBC o drioleg "His Dark Materials", gan Gymrawd Er Anrhydedd Bangor, Phillip Pullman, a enwebwyd am wobr y ddrama deledu orau, ymhlith categorïau eraill. **Cyfrannodd Rory Farmer a Robert Zyborski** at waith camera i raglen Ysgol Ni: Maesincla a

enwebwyd am wobr y gyfres ffeithiol orau. Rhaglen ddogfen yw hon yn dilyn hynt disgyblion ac athrawon ysgol yng Nghaernarfon.

**Enillodd yr Athro Judy Hutchings,** Canolfan Ymyrraeth Gynnar ar Sail Tystiolaeth, Ysgol Seicoleg wobr Cyflawniad Oes mewn Seicoleg gan Fwrdd Ymarfer Cymdeithas Seicolegol Prydain.

Diweddariad ar Lyfr y Flwyddyn 2020. **Enillodd Zoe Skoulding** y Wobr Farddoniaeth gyda "Footnotes to Water", a chafodd Alys Conran ail yng Ngwobr Ffuglen Ymddiriedolaeth Rhys Davies gyda'i nofel "Dignity". **Ifan Morgan Jones** enillodd brif wobr Llyfr y Flwyddyn 2020 a gwobr Barn y Bobl Golwg.

Yn ychwanegol **enwebwyd Caryl Bryn,** cyn-fyfyrwraig yn Ysgol y Gymraeg yn y categori Barddoniaeth. Aeth ymlaen i ennill y wobr honno.

D. Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y cadeirydd yn gynnes yr aelodau staff a'r myfyrwyr dan sylw.

**20.4 DATGANIADAU BUDD**

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol mewn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Mrs Marian Wyn Jones, fel aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru, cyn aelod ac ymgynghorydd cyfredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â chofnod 20.7B[1] a 20.8C

- Dr Llion Jones, Dr Myfanwy Davies a Mr Tudur Williams fel aelodau staff mewn perthynas â chofnod 20.12

- Yr Athro Nicky Callow, fel aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â chofnod 20.7B[1]

**20.5 COVID-19: DIWEDDARIAD AR YMATEB Y BRIFYSGOL**

A. Roedd Mr Gareth Wynn Jones, Pennaeth Iechyd a Diogelwch, yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor i roi trosolwg ar brosesau'r brifysgol mewn perthynas â Covid-19.

B. Dywedwyd wrth yr aelodau bod cryn ymdrech wedi ei wneud dros yr haf i sicrhau bod y campws yn barod at ddechrau'r flwyddyn academaidd, ac yn benodol er mwyn hwyluso dysgu wyneb yn wyneb ar y campws. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

[1] Caiff dogfen asesu risg Covid-19 y brifysgol ei diweddaru'n rheolaidd, ac mae ar gael yn gyhoeddus ar wefan y brifysgol. Ategir yr asesiad risg hwn gan asesiadau manylach o weithgareddau fel addysgu ac asesiadau manylach o adeiladau;

[2] Defnyddir system ddosbarthu gyda goleuadau traffig, sy'n adlewyrchu meini prawf Profi, Olrhain a Diogelu ar gyfer hunan-ynysu, a chaiff gweithgareddau eu dosbarthu gan ddefnyddio'r categorïau coch, oren a gwyrdd. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r brifysgol sicrhau y gellir cynnal digwyddiadau ar yr amserlen sydd yn y categori gwyrdd mewn ffordd ddiogel yng nghyd-destun Covid-19. Yn achos y gweithgareddau hynny sydd yn y categori coch, a waeth beth yw'r mesurau lliniaru sydd ar waith, bydd rhaid i'r garfan gyfan hunan-ynysu pe bai achos positif o Covid-19. Gweithgareddau oren yw'r rhai sydd rhwng coch a gwyrdd, lle bydd y tîm Profi, Olrhain a Diogelu yn penderfynu a oes angen hunan-ynysu ar sail y wybodaeth a rannwyd gan y brifysgol.

[3] Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn rhagorol yn ei gefnogaeth o'r brifysgol wrth iddi sefydlu canolfan brofi ar y safle i fyfyrwyr, sydd ar hyn o bryd ar safle Ffordd Deiniol, ond a fydd yn symud cyn bo hir i Ysbyty Enfys ar safle Ffriddoedd. Gellir cynyddu'r capasiti profi yn y ganolfan hon i oddeutu 300 o brofion y dydd os yw'r galw yn gofyn am hynny. Ceir nifer fach o achosion o Covid-19 yn y brifysgol ar hyn o bryd, ond nid ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau'r brifysgol. Ystyrir aelodau staff sydd angen prawf yn staff allweddol a gallent fynd i unrhyw un o ganolfannau profi'r bwrdd iechyd ledled gogledd Cymru.

[4] Ystyrir y gwaith a wneir gan labordy'r Athro Davey Jones yng Ngholeg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg, sy'n samplu dŵr gwastraff o safleoedd neuaddau'r Ffriddoedd a'r Santes Fair, yn rhan hanfodol o'r gwaith o reoli achosion Covid-19 yn y brifysgol. Bydd y fenter hon yn galluogi'r brifysgol i nodi'n gyflym a oes llwyth firaol cynyddol yn y dŵr gwastraff.

[5] Caiff archebion myfyrwyr am brofion a'r gwaith o reoli achosion o Covid-19 ei wneud trwy borth pwrpasol a adeiladwyd i'r brifysgol gan y Gwasanaethau TG. Mae'r adnodd unigryw hwn yn y sector yng Nghymru yn ei wneud yn bosib i adnabod yr holl staff a myfyrwyr a allai fod wedi bod mewn digwyddiad lle oedd unigolyn sydd wedi cael prawf positif Covid-19 yn bresennol ac yn gallu adnabod proffil risg Covid-19 y digwyddiad hwnnw yn gyflym, gan ganiatáu i'r brifysgol weithio gyda'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu.

C. Diolchodd y cadeirydd i Mr Jones am ei gyflwyniad a nododd fod y Cyngor yn sicr bod prosesau priodol ar waith i reoli canlyniadau profion Covid-19 positif yr adroddir amdanynt. Diolchodd y cadeirydd hefyd i'r Pwyllgor Gweithredu a'r holl aelodau staff a oedd wedi bod yn gweithio'n ddiflino dros yr haf i baratoi at ddyfodiad y myfyrwyr.

D. Cafodd y Cyngor wybod am daith ddiweddar y cadeirydd a chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, gydag aelodau'r Pwyllgor Gweithredu, o amgylch y campws. Cafodd y grŵp weld y gwaith a wnaed i sicrhau bod y campws yn cydymffurfio â holl reoliadau Llywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol a dywedodd y cadeirydd a'r Athro Roberts wrth y Cyngor bod y trefniadau a roddwyd ar waith wedi rhoi sicrhad iddynt. Nodwyd y caiff y trefniadau eu hadolygu yn ystod y misoedd nesaf mewn

perthynas â newidiadau mewn rheoliadau a hefyd mewn perthynas â sut bydd myfyrwyr a staff yn symud o amgylch adeiladau ar ôl i'r tymor ddechrau.

**20.6 CYFLWYNIAD AR HUNANIAETH GORFFORAETHOL**

A. Croesawyd Ms Westwood yn ôl i'r Cyngor i ddarparu trosolwg ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd i ddiweddaru hunaniaeth gorfforaethol y brifysgol.

B. Nodwyd nad ymarfer ail-frandio yw hwn ond cyfle i bortreadu'r brifysgol mewn ffordd wahanol, gan ddiogelu a hyrwyddo ei hanes a'i threftadaeth. Mae Ms Westwood wedi bod yn gweithio gydag asiantaeth i ddatblygu brand glân a modern newydd ar gyfer y brifysgol, gyda chyfres o asedau ar gyfer marchnata a deunyddiau hyrwyddo. Mae'r canllawiau brand cyfredol yn 12 oed ac ni chânt eu defnyddio mor aml nac mor gyson ag sy'n ofynnol, yn ogystal caiff is-frandiau eu creu heb oruchwyliaeth briodol a heb balet lliwiau fel y caiff y lliw coch ei orddefnyddio. Mae gwaith hefyd wedi mynd rhagddo gydag ysgrifennwr copi Cymraeg i sicrhau bod y negeseuon Cymraeg yn cyfleu hanfod y neges yn hytrach na chopi gair am air o'r cynnwys Saesneg. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Cyngor yn amlinellu'r dull a awgrymir, gyda phwyslais ar ddefnyddio siâp tarian ac arfbais y brifysgol yn y deunyddiau i gyd. Amlinellwyd palet o liwiau ehangach a chryfach gan gymryd ysbrydoliaeth o'r amgylchedd lleol, a defnyddio ffotograffau o leoliadau i hybu dysgu ac ymchwil. Rhannwyd nifer o ddyluniadau drafft gyda'r Cyngor yn cynnig persbectif newydd ar farchnata'r brifysgol.

C. Diolchwyd i Ms Westwood am ei chyflwyniad ysbrydoledig i'r Cyngor.

**COFNODION 20.7**

A. ***Cadarnhawyd*** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 10 Gorffennaf 2020.

B. Gan gyfeirio at:

[1] **Ysgol Meddygaeth Gogledd Cymru** [Cofnod 19.108A]; hysbysodd yr Is-ganghellor y Cyngor y disgwylir cyhoeddiad yn ystod y dyddiau nesaf gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei chefnogaeth i sefydlu Ysgol Meddygaeth Gogledd Cymru ac yn penodi grŵp tasg a gorffen i asesu dichonoldeb y gwaith a wnaed eisoes, gyda dyddiad adrodd yn ôl yn ystod haf 2021. Croesawodd y Cyngor y diweddariad hwn a diolchodd y cadeirydd i'r Pwyllgor Gweithredu, ac yn benodol yr Athro Callow am eu gwaith manwl.

[2] **Siarter Atodol Drafft** [Cofnod 19.121]; adroddwyd bod y brifysgol wedi gwneud cais anffurfiol i'r Cyfrin Gyngor, ond ni chafwyd ymateb eto. Nodwyd y byddai'r broses wedyn yn golygu bod rhaid i'r siarter ddychwelyd i'r Cyngor i'w hystyried yn derfynol, cyn ei chyflwyno i'r Cyfrin Gyngor i'w chymeradwyo. Nodwyd ymhellach fod y Llys, yn ei gyfarfod ar 5 Awst 2020 wedi trafod y siarter ddrafft ac wedi cymeradwyo'r cynnwys, gan gefnogi cais y Cyngor i'r Cyfrin Gyngor.

[3] **Pwyllgor Strategaeth yr Iaith Gymraeg** (Cofnod 19.122); nodwyd y caiff aelodaeth a chylch gorchwyl arfaethedig Pwyllgor Strategaeth yr Iaith Gymraeg eu dwyn gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

C. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cyngor. Nododd y Cyngor yr adroddiadau cynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

## 20.8 MATERION YR IS-GANGHELLOR

A. Nododd yr Is-ganghellor y bu ansicrwydd mawr yn y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor mewn perthynas â chanlyniadau Lefel A yr haf, ac ar ben hynny roedd y brifysgol wedi ymdopi â phroses glirio heriol ond cadarnhaol yn ystod mis Awst. Nodwyd bod rhaid deall y goblygiadau sy'n deillio o'r penderfyniad eleni i ganslo arholiadau ysgrifenedig yn llawn mewn perthynas â phrosesau UCAS y flwyddyn nesaf, ac mae'n amlwg y bydd hwn yn fater perthnasol iawn i'r brifysgol yn ystod y misoedd nesaf.

B. Nododd y Cyngor bod nifer o dablau cynghrair wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar. Adroddodd yr Is-ganghellor nad yw'r brifysgol wedi gwella ei safle mewn tablau allweddol cymaint ag y gobeithiwyd, gyda'r gwelliant o ddim ond 3 safle yn nhabl cynghrair y Guardian. Ond mae safle'r brifysgol yn nhabl cynghrair y Times ychydig yn well, ac wedi codi 8 safle. Caiff gwella safle'r brifysgol mewn tablau cynghrair ei ystyried yn flaenoriaeth o bwys i'r brifysgol wrth symud ymlaen, a bydd yr Is-ganghellor yn cynnull grŵp cyn bo hir i ganolbwyntio ar wella'r sefyllfa yn ystod y blynyddoedd nesaf.

C. Mae'r brifysgol wedi bod yn trafod gyda chanolfannau y celfyddydau eraill yng Nghymru, a chyda Llywodraeth Cymru, ynglŷn â gwaddod Covid-19. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais tymor hir i weld tua 30% o weithwyr Cymru yn gweithio o gartref neu'n agos i'w cartref, yn cynnwys ar ôl i fygythiad Covid-19 leihau, a dylai canolfannau y celfyddydau gydweithio i gynnig cyfleoedd cymdeithasol ar lefel leol i'r gweithwyr cartref hyn. Megis dechrau y mae'r trafodaethau ac mae'n hanfodol bod y brifysgol yn parhau i gymryd rhan ynddynt.

## 20.9 DIWEDDARIAD UNDEB Y MYFYRYWR

A. Nododd y Cyngor adroddiad gan Undeb y Myfyrwyr ar eu gweithgareddau, eu hymgyrchoedd a'u digwyddiadau diweddar. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn neilltuol:

[1] **Gwefan Undeb Bangor:** Datblygwyd gwefan newydd Undeb Bangor dros yr haf a aeth yn fyw ddechrau mis Medi.

[2] **Gwobr Ragoriaeth Effaith Werdd:** Dyfarnwyd Gwobr Ragoriaeth Effaith Werdd i Undeb y Myfyrwyr, gyda'r sgôr uchaf yng Ngwobrau Effaith Werdd Undebau Myfyrwyr 2019-20.

[3] **Ymateb i'r Pandemig Covid-19:** Adroddwyd bod Undeb y Myfyrwyr, trwy gydol y pandemig, wedi cynnal cyswllt ar-lein o bell â'r myfyrwyr ac wedi parhau i

ddarparu gwasanaethau ar-lein, yn cynnwys cyngor academaidd, cefnogaeth gyda chynrychiolaeth a chynrychiolwyr cyrsiau.

[4] **Sesiwn Holi ac Ateb gyda'r Pwyllgor Gweithredu:** Trefnwyd sesiwn holi ac ateb fyw gydag aelodau o'r Pwyllgor Gweithredu a chafwyd atebion i gwestiynau ynglŷn â'r flwyddyn academaidd newydd. Cyflwynwyd 150 o gwestiynau ymlaen llaw, ac mae'r fideo wedi cael ei gwylio dros 4,000 o weithiau.

[5] **Cefnogaeth Iechyd Meddwl Cyfrwng Cymraeg** Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar greu gwefan cefnogaeth iechyd meddwl myfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg sydd i'w lansio yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae llawer o fyfyrwyr UMCB wedi bod yn cyfrannu at greu cynnwys i'r wefan, bydd y wefan newydd yn gam pwysig i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf.

B. Diolchodd y cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Mr Williams a Mr Evans am adroddiad llawn gwybodaeth.

**20.10 DIWEDDARIAD AR RECRIWTIO MYFYRYWYR**

A. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod y brifysgol wedi paratoi tri senario ariannol ar gyfer rhagolygon ariannol HEFCW eleni, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Mae'r papur yn rhoi diweddariad am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â niferoedd myfyrwyr cartref/UE a rhyngwladol ac yn nodi'r data cyfredol yn erbyn y senario waelodlin, senario orau HEFCW a senario waethaf HEFCW.

B. Mae nifer y myfyrwyr a dderbynnir (h.y. y rhai y disgwylir iddynt gofrestru) wedi ei olrhain pob dydd ers dechrau mis Awst, gyda chanlyniadau tebygol yn cael eu hallosod o dueddiadau'r flwyddyn flaenorol, gan ystyried amgylchiadau anarferol y flwyddyn gyfredol e.e. ailraddio graddau Lefel A; cynnydd sylweddol mewn cynigion clirio).

C. Ar hyn o bryd, mae'r brifysgol yn debygol o recriwtio tua 70 o fyfyrwyr Cartref/UE yn fwy na'r llynedd, a thua 250 o fyfyrwyr yn ychwanegol at y senario mwyaf ffafriol a fodelwyd. Mae hyn yn welliant sylweddol o ystyried bod y rhagamcanion wedi bod 8% yn is na'r llynedd trwy gydol mwyafrif y cylch recriwtio. Mae'r brifysgol yn debygol o recriwtio tua 115 yn fwy o ôl-raddedigion Cartref/UE na'r llynedd, a thua 185 o fyfyrwyr yn ychwanegol at y senario mwyaf ffafriol a fodelwyd.

D. Yn achos myfyrwyr rhyngwladol, mae'r brifysgol yn debygol o recriwtio tua 230 o fyfyrwyr, sy'n bodloni ei senario gwaelodlin, ond sydd tua 230 o fyfyrwyr yn llai na'r llynedd. Yn achos myfyrwyr ôl-radd rhyngwladol, y sefyllfa yw bod y brifysgol yn debygol o recriwtio tua 480 yn llai o fyfyrwyr na'r llynedd (tua 80 yn llai o fyfyrwyr na senario gwaelodlin y brifysgol).

E. At ei gilydd, mae hyn yn golygu bod y brifysgol oddeutu £3m dros y gwaelodlin ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd y ffigurau dal gafael yn well na'r hyn a ragwelwyd. Nodwyd

mai dim ond megis dechrau ydym ni o hyd a bod y brifysgol yn monitro'r ffigurau cofrestru yn rheolaidd.

## 20.11 GRŴP GORUCHWYLIO LLYWODRAETHU COVID-19

Cyflwynodd y cadeirydd gofnodion cyfarfod y Grŵp Goruchwylio Llywodraethu Covid-19 a gynhaliwyd ar 11 Awst 2020 (ynghlwm fel Atodiad I i'r copi swyddogol o'r cofnodion), a ***nodwyd*** y cofnodion hynny.

## 20.12 YMDRIN Â'R HERIAU ARIANNOL

A. Cyflwynodd yr Is-ganghellor ei bapur ar ymdrin â'r heriau ariannol, ac atgoffodd yr aelodau bod y Cyngor, yn y cyfarfod diwethaf ar 10 Gorffennaf 2020, wedi ystyried diweddariad ar yr heriau ariannol sy'n gysylltiedig â Covid-19 ac wedi nodi mai'r pandemig a gyflwynodd yr her weithredol ac economaidd fwyaf i'r brifysgol yn ei holl hanes. Mae'r brifysgol wedi ymateb i'r heriau gweithredol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â Covid-19 erbyn hyn, ac yn awr mae'n rhaid iddi ystyried goblygiadau'r pandemig yn llawn ar weithrediadau'r brifysgol yn y dyfodol, ac ar ei gallu i ymateb.

B. Nodwyd bod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth wedi cytuno ar y canlynol yn ei gyfarfod ar 7 Medi 2020:

[1] Rhaid i'r brifysgol leihau tua £13m ar ei chostau gweithredu blynyddol bob blwyddyn yn amodol ar yr ansicrwydd a amlinellir yn y papur;

[2] Dylai'r Pwyllgor Gweithredu ddechrau cyfnod byr o ymgynghori ar unwaith, er mwyn rhoi cyfle i staff/myfyrwyr gyflwyno cynigion a allai nodi'r arbedion gofynnol;

[3] Os na fydd hyn yn sicrhau'r lefel angenrheidiol o arbedion, bydd y brifysgol yn datblygu cynlluniau manwl i sicrhau arbedion cynaliadwy er mwyn eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar 25 Medi 2020;

C. Dywedwyd wrth y Cyngor bod nifer o gyfarfodydd ymgynghori wedi eu cynnal gyda chynrychiolwyr undebau llafur, a chafwyd adborth gan staff yn awgrymu opsiynau y gallai'r brifysgol eu hystyried, er mwyn gwneud yr arbedion angenrheidiol. Ond ar ôl ystyried yr ymatebion, mae'r Pwyllgor Gweithredu wedi dod i'r casgliad na fydd yr opsiynau hyn yn sicrhau digon o arbedion, ac y dylai'r ymgynghoriad fynd ymlaen i'r ail gam ac ymgynghori ar achosion busnes a fyddai'n ceisio lleihau nifer y staff yn gyffredinol, yn amodol ar gytundeb y Cyngor.

D. Derbyniodd y Cyngor grynodeb o'r pedwar achos busnes, yn cynnwys trosolwg manwl ar y newidiadau arfaethedig ar draws y meysydd academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol gan yr Athro Turnbull a Dr Mundy. Yn ogystal, amlinellodd Mr Eastwood y sefyllfa ariannol gyfredol a'r rhifau a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Pwysleisiwyd y byddai'r pum colofn strategol a amlinellwyd i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf yn sail i'r holl waith a wneir ar hyn o bryd. ***Nodwyd*** dogfen

gyffredinol yn crynhoi'r dull strategol o ymdrin â'r heriau ariannol, a ddarperir i staff ochr yn ochr â'r achosion busnes dros newid.

E. Cafwyd trafodaeth fanwl, a gwnaed y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Dylid dangos ffigurau'r llif arian heb gynnwys y benthyciad EIB fel bod y ffigurau'n gliriach i aelodau'r Cyngor eu hystyried;
- Roedd pryder, o ystyried yr ymatebion i'r Arolwg Staff, bod y brifysgol yn dechrau ymarfer ailstrwythuro arall mor fuan ar ôl y rhai blaenorol a gofynnodd yr aelodau am sicrwydd gan yr Is-ganghellor ynglŷn â'r cyfeiriad strategol a'r prosesau cynllunio;
- Mynegwyd pryder bod yr amserlen sy'n gysylltiedig â'r ymarfer ailstrwythuro arfaethedig yn cael ei rhuthro, ac y gallai effeithio ar brofiad myfyrwyr, lles staff a myfyrwyr, a recriwtio myfyrwyr;
- Mynegwyd pryderon penodol ynglŷn â'r cynnig i gyfuno meysydd gwasanaethau proffesiynol. Cadarnhawyd mai newidiadau arfaethedig yw'r rhain ar hyn o bryd, ac y byddant yn destun ymgynghoriad;
- Mynegwyd pryder am effaith y newidiadau ar y Gymraeg a'r ddarpariaeth Gymraeg, a rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai'r effaith ar y Gymraeg yn flaenllaw ac yn ganolog i'r holl drafodaethau ynglŷn â'r strwythur arfaethedig;
- Caiff gwaredu asedau ei ystyried ymhlith mesurau ariannol eraill;
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod myfyrwyr hefyd yn cael gwybodaeth lawn ac yn rhan o'r broses ymgynghori;
- Ystyrir bod cyfathrebu ag aelodau staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol yn hanfodol yn ystod y cyfnod hwn;

F. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd, ac yn dilyn trafodaeth fanwl:

[1] ***Cymeradwyodd*** y Cyngor yn ffurfiol y cynlluniau a gyflwynwyd ar gyfer ad-drefnu'r maes academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol, gan gydnabod bod y cyfryw gynlluniau yn destun ymgynghoriad parhaus gydag undebau llafur cydnabyddedig y brifysgol (o dan a188 TULRCA 1992) a staff a myfyrwyr, a bod rhaid cwblhau'r ymgynghori hwnnw cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynglŷn â'r cynigion hynny neu weithredu arnynt, a chydnabod hefyd, o ganlyniad i'r ymgynghori hwnnw, y gallai'r cynlluniau hynny newid.

[2] ***Nododd*** y Cyngor fod ganddynt hyder bod y cynlluniau'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r arbedion angenrheidiol ac i roi cyllid y brifysgol ar lwybr cadarn a sefydlog tua'r dyfodol.

[3] ***Penderfynodd*** y Cyngor, yn unol â Statud XX paragraff 10(2), ei bod yn ddymunol gostwng nifer y staff academaidd (9a) ym Mhrifysgol Bangor yn gyffredinol; neu (b) mewn unrhyw gyfadran, adran, ysgol neu faes arall o Brifysgol Bangor, trwy ddiswyddo. Mae'r Cyngor hefyd yn ei gwneud yn glir nad yw'r penderfyniad hwn yn rhagfarnu canlyniad yr ymgynghoriad A188 gyda'r undebau.

[4] ***Penderfynodd*** y Cyngor, yn unol â Statud XX paragraff 11(1), i benodi Pwyllgor Diswyddo yn unol ag is-baragraff (3), paragraff 11(1) i weithredu ei benderfyniad erbyn y cyfryw ddyddiad ag y gall ei bennu ac i'r pwrpas hwnnw: (a) dewis ac argymell y nifer gofynnol o'r aelodau staff academaidd i'w diswyddo ar y sail bod eu swydd yn dod i ben; a (b) rhoi gwybod am eu hargymhellion i'r corff priodol (y Cyngor).

## 20.13 ADRODDIAD BLYNYDDOL YSTADAU

A. Cyflwynodd Mr Wiegand Adroddiad Blynyddol Ystadau i'r aelodau. Atgoffwyd y Cyngor mai ystad y brifysgol yw un o'i brif gyfrifoldebau. Yn ogystal, mae Cod Rheolaeth Ariannol HEFCW yn cynnwys adran ar reoli'r ystad mewn modd darbodus ac yn nodi y dylai cyrff llywodraethu dderbyn adroddiad blynyddol yn amlinellu perfformiad yr ystad. Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth i aelodau am ffeithiau a ffigurau allweddol, y rhaglen o drawsnewid a roddwyd ar waith yn yr adran, y gwaith a wnaed i ddiwallu anghenion datblygu'r brifysgol, gwybodaeth am ynni a'r amgylchedd a gweithgareddau caffael.

B. Diolchodd y cadeirydd i Mr Wiegand am yr adroddiad manwl, a ***chadarnhaodd*** y Cyngor bod y ddogfen yn rhoi sicrwydd ynglŷn â'r prif gyfrifoldeb hwn.

## 20.14 AROLYGON MYFYRWYR

A. Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr

Cyflwynodd yr Athro Turnbull ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, sef arolwg blynyddol, wedi ei anelu at israddedigion yn eu blwyddyn olaf, sy'n casglu barn myfyrwyr ynglŷn ag ansawdd eu cyrsiau. Mae'r data yn helpu i lywio dewisiadau darpar fyfyrwyr; darparu data sy'n cefnogi sefydliadau i wella profiad myfyrwyr; a chefnogi atebolrwydd cyhoeddus. Nodwyd bod gan y brifysgol 19 pwnc ymhlith yr 20 uchaf yn y Deyrnas Unedig a bod ganddi 6 rhaglen gyda chyfradd foddhad o 100%. Y gyfradd foddhad gyffredinol yw 85%, sy'n rhoi'r brifysgol yn safle 28 yn y Deyrnas Unedig ac yn 3$^{ydd}$ yng Nghymru.

Adroddwyd bod Prifysgol Bangor wedi cael cyfres o ganlyniadau llwyddiannus yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr dros y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys canlyniadau sydd uwchlaw meincnod y sector, gan orffen yn y 10 uchaf trwy'r Deyrnas Unedig, fel prifysgol ac o ran nifer o'r meysydd pwnc. Roedd y brifysgol yn siomedig o weld gostyngiad mewn boddhad cyffredinol ar draws y sefydliad (o 88% i 85%), gan gynnwys yn rhai o'i rhaglenni a meysydd pwnc. Adroddwyd bod dau ffactor sylweddol yn ymddangos fel petaent wedi cyfrannu at y canlyniad hwn, sef y streic dros y cyfnod ymateb ym mis Chwefror a mis Mawrth, a hefyd effaith Covid-19 a symud i ddysgu ar-lein yn llawn. Amlinellodd yr Athro Turnbull gamau i liniaru'r dirywiad mewn boddhad cyffredinol gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi, gwella'r amgylchedd dysgu rhithiol, moderneiddio cynnwys y cwricwlwm a digwyddiadau cynllunio gweithredu staff/myfyrwyr.

B. Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Hyfforddedig (PTES)

Nododd yr Athro Callow mai arolwg ar draws y sector addysg uwch yn y Deyrnas Unedig i gael gwybodaeth gan fyfyrwyr ôl-radd hyfforddedig am eu profiad yn ymwneud â dysgu ac addysgu yw'r Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Hyfforddedig (PTES). Rhoddwyd y cyfle i 1667 o fyfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig ar draws y brifysgol gymryd rhan yn PTES 2019. 31% oedd cyfradd ymateb yr arolwg, i lawr o 39% y flwyddyn flaenorol. Cyfradd foddhad gyffredinol y myfyrwyr â'u hastudiaethau oedd 78%. Roedd y brifysgol yn y 48ain safle yn gyffredinol, o gyfanswm o 68 o sefydliadau sy'n cymryd rhan yn yr arolwg.

C. Arolwg Profiad Ôl-Raddedigion Ymchwil (PRES)

Amlinellodd yr Athro Spencer ganlyniadau'r Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-radd, arolwg a gynhelir ar draws y sector addysg uwch yn y Deyrnas Unedig i gael gwybodaeth gan fyfyrwyr ymchwil ôl-radd am eu profiad yn ymwneud â dysgu a goruchwyliaeth. Rhoddwyd y cyfle i 786 o fyfyrwyr ôl-radd ymchwil ar draws y brifysgol gymryd rhan yn PRES 2019. 54% oedd cyfradd ymateb yr arolwg, i lawr o 59% yn 2019, ac yn gyffredinol, roedd y brifysgol yn y 10fed safle o gyfanswm o 45 o sefydliadau sy'n cymryd rhan.

D. ***Nododd*** y Cyngor ganlyniad y tri arolwg a diolchwyd i'r Athro Turnbull, yr Athro Callow a'r Athro Spencer am eu cyfraniad.

## 20.15 DATGANIAD AR FASNACHU POBL

Cyflwynodd Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol ddatganiad blynyddol y brifysgol ar gaethwasiaeth a masnachu pobl. ***Cymeradwyodd*** y Cyngor y datganiad sydd i'w atodi i gyfrifon y brifysgol am 2019/20.

## 20.16 ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDU

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf 2020 a Medi 2020 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

## 20.17 PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH

***Cymeradwywyd*** yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a gynhaliwyd 7 Medi 2020 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

## 20.18 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

***Cymeradwywyd*** adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd 9 Medi 2020 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion).

## 20.19 MATERION ADNODDAU DYNOL

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol a ***nodwyd*** y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Cyflog Byw Gwirioneddol.

B. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

C. ***Cymeradwyodd*** y Cyngor y cais i ddyfarnu statws Emeritws i'r Athro Gary Carvalho.

## 20.20 ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

***Nodwyd*** adroddiad dros dro gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, gan nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor (ynghlwm fel Atodiad V i'r copi swyddogol o'r cofnodion).

## 20.21 FFARWELIO

***Nododd*** y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod diwethaf Ms Ellen Parry Williams gan ei bod wedi cwblhau ei dau dymor fel aelod annibynnol o'r Cyngor. Ar ran y Cyngor, diolchodd y cadeirydd i Ellen yn gynnes am ei hymroddiad a'i chefnogaeth i'r brifysgol dros nifer fawr o flynyddoedd.